

Rhif: WG23257



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

[www.cymru.gov.uk](http://www.cymru.gov.uk)

Llywodraeth Cymru

## Ymgynghoriad – crynodeb o'r ymatebion

### Safonau'r Gymraeg: Rheoliadau

Gwella gwasanaethau i siaradwyr Cymraeg

Dyddiad cyhoeddi: Mawrth 2015

# Safonau'r Gymraeg: Rheoliadau

<b>Cynulleidfa</b>	Aelodau'r cyhoedd, y cyrff a fydd yn destun y set gyntaf o safonau, ac unrhyw un arall sydd â diddordeb yn y rheoliadau.
<b>Trosolwg</b>	Mae'r ddogfen hon yn crynhoi ymatebion a dderbyniwyd i'r ymgynghoriad ar Reoliadau arfaethedig Llywodraeth Cymru ar Safonau'r Gymraeg, a gynhaliwyd rhwng 7 Tachwedd a 5 Rhagfyr 2014.
<b>Camau i'w cymryd</b>	Dim – er gwybodaeth yn unig.
<b>Rhagor o wybodaeth</b>	Dylid cyfeirio ymholiadau am y ddogfen hon i: Uned y Gymraeg Yr Adran Addysg a Sgiliau Llywodraeth Cymru Parc Cathays Caerdydd CF10 3NQ e-bost: <a href="mailto:UnedlaithGymraegWelshLanguageUnit@cymru.gsi.gov.uk">UnedlaithGymraegWelshLanguageUnit@cymru.gsi.gov.uk</a>
<b>Copiau ychwanegol</b>	Mae'r ddogfen hon ar gael o wefan Llywodraeth Cymru yn <a href="http://www.cymru.gov.uk/ymgyngoriadau">www.cymru.gov.uk/ymgyngoriadau</a>
<b>Dogfennau cysylltiedig</b>	Rheoliadau Safonau'r Gymraeg <i>Ymateb Gweinidogion Cymru i adroddiadau safonau a nodyn cyngor Comisiynydd y Gymraeg (2014)</i> Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011

# Cynnwys

Cyflwyniad a throsolwg	2
Ymatebion i'r ymgynghoriad – dadansoddiad	3
Ymgynghori â phlant a phobl ifanc	5
Adborth o'r ymgynghoriad	6
Casgliad	19

## Cyflwyniad a throsolwg

Mae'r ddogfen hon yn crynhoi'r ymatebion a ddaeth i law Llywodraeth Cymru i'r ymgynghoriad ar Reoliadau Safonau'r Gymraeg. Cynhaliwyd yr ymgynghoriad rhwng 7 Tachwedd a 5 Rhagfyr 2014.

Roedd yr ymgynghoriad hwn yn holi barn pobl am y rheoliadau drafft i bennu'r Safonau cyntaf ar gyfer y Gymraeg. Bydd y safonau hyn yn caniatáu i Gomisiynydd y Gymraeg roi dyletswyddau mewn perthynas â'r Gymraeg ar Gynghorau Bwrdeistref Sirol a Chynghorau Sir yng Nghymru, Awdurdodau Parciau Cenedlaethol yng Nghymru, a Gweinidogion Cymru.

Gwahoddwyd sylwadau oddi wrth sefydliadau y mae'r gyfres gyntaf o Safonau'n berthnasol iddynt ac aelodau'r cyhoedd sydd â diddordeb yn y Safonau. Cyhoeddwyd yr holiadur ar wefan Llywodraeth Cymru a'i hyrwyddo drwy ei sianeli ar y cyfryngau cymdeithasol. Cyfarfu swyddogion polisi â'r sefydliadau y mae'r gyfres gyntaf o Safonau'n berthnasol iddynt, a grwpiau lobio, drwy gydol y cyfnod ymgynghori. Cynhaliwyd trafodaeth â phobl ifanc hefyd er mwyn casglu eu sylwadau nhw.

Mae'r Safonau drafft y cyfeirir atynt yn yr adroddiad hwn yn cyfeirio at y Safonau yr ymgynghorir arnynt sydd i'w cael yn y ddogfen ganlynol:

<http://wales.gov.uk/docs/dcells/consultation/141106-regulations-welsh-language-standards-cy.pdf>

## Ymatebion i'r ymgynghoriad – dadansoddiad

Cafwyd 188 o ymatebion ysgrifenedig i'r ymgynghoriad.

- **Sefydliadau y mae'r gyfres gyntaf o Safonau'n berthnasol iddynt (17):** gwahoddwyd pob un o'r 26 sefydliad i ymateb a'u hatgoffa o ddyddiad cau'r ymgynghoriad. Ymatebodd y canlynol:  
  
Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent, Cyngor Sir Caerfyrddin, Cyngor Sir Ceredigion, Dinas a Sir Abertawe, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, Cyngor Sir y Fflint, Cyngor Sir Ynys Môn, Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot, Cyngor Dinas Casnewydd, Cyngor Sir Penfro, Cyngor Sir Powys, Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen, Cyngor Bro Morgannwg, Cyngor Wrecsam, Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro, Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri.
- **Sefydliadau eraill (12):** Coleg Pen-y-bont, y Ganolfan Materion Cyfreithiol Cymreig, Coleg Gwent, Coleg Sir Gâr, Colegau Cymru, Coleg Gŵyr Abertawe, Grŵp Llandrillo Menai, Cyngor y Proffesiynau Iechyd a Gofal, Mobile Broadband Group, Amgueddfa Cymru, Coleg Dewi Sant, S4C.
- **Grwpiau lobïo/grwpiau â diddordeb (9):** Cymdeithas yr Iaith Gymraeg, Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru, Dyfodol yr Iaith, Mentrau Iaith Cymru, Monitor Iaith, Plaid Cymru, Mudiad Dathlu'r Gymraeg, Grŵp Syr IfanC yr Urdd.
- **Unigolion (150)**

Gofynnwyd i'r ymatebwyr ystyried 8 cwestiwn penodol. Cawsant gyfle hefyd i fynegi barn ar faterion cysylltiedig nad oeddent wedi'u trafod yn benodol yn y ddogfen ymgynghori.

Roedd fformat yr ymatebion yn amrywio - roedd pob un o'r sefydliadau yr oedd y gyfres gyntaf o Safonau'n berthnasol iddynt a phob un ond un o'r sefydliadau eraill wedi defnyddio'r holiadur a ddarparwyd. Ond nid oedd pob un ohonynt wedi nodi a oeddent yn cytuno, yn anghytuno neu ddim yn cytuno nac yn anghytuno â phob un o'r cwestiynau. Ni wnaeth unrhyw un o'r grwpiau lobïo ddefnyddio'r holiadur - gwnaethant ymateb drwy gyflwyno dogfen neu e-bost. Gwnaeth pump unigolyn ddefnyddio'r holiadur i ymateb ac fe wnaeth y gweddill ymateb drwy e-bost. Ymatebodd **136** unigolyn drwy gyflwyno eu sylwadau ar sail templed a baratowyd gan Gymdeithas yr Iaith.

Ar ddechrau pob ymateb, nodir nifer a chanran yr ymatebwyr a oedd yn cytuno, yn anghytuno neu ddim yn cytuno nac yn anghytuno â'r cwestiynau. Mae hyn yn seiliedig ar yr holl ymatebwyr ac nid yw wedi'i rannu yn ôl grwpiau.

Mae'r dyfyniadau o'r ymatebion i'r ymgynghoriad a dderbyniwyd yn Saesneg wedi'u cyfieithu i'r Gymraeg, ac maent wedi'u priodoli i sefydliadau/unigolion os ydynt wedi rhoi eu caniatâd. Gofynnodd rhai ymatebwyr i ni beidio â chyhoeddi eu manylion personol ac felly fe'u disgrifir fel 'anhysbys'.

## Ymgynghori â phlant a phobl ifanc

Er bod yr ymgynghoriad ar gael i bawb drwy wefan Llywodraeth Cymru, roeddem am sicrhau bod sylwadau plant a phobl ifanc yn cael eu hystyried hefyd. I wneud hyn, lluniwyd fersiwn o'r ddogfen ymgynghori a oedd yn addas i bobl ifanc a chysylltwyd â sefydliadau sy'n cynnwys ac yn cynrychioli pobl ifanc er mwyn sicrhau eu bod yn ymwybodol o'r broses ymgynghori.

Rydym yn ddiolchgar iawn i Urdd Gobaith Cymru am drefnu bod aelodau bwrdd Grŵp Syr IfanC yn trafod y rheoliadau drafft. Aeth pobl ifanc 14 - 20 oed o bob cwr o Gymru i'r cyfarfod.

Roedd y grŵp o blaid y Safonau a chodwyd nifer o'r un pwyntiau â'r rheini a ddaeth i law mewn ymatebion eraill i'r ymgynghoriad. Nodir eu pwyntiau penodol isod.

O ran galwadau ffôn, roedd y grŵp o'r farn ei bod yn bwysig defnyddio iaith syml y gall rywun sy'n dysgu Cymraeg ei deall, dechrau pob sgwrs yn Gymraeg, a gwisgo bathodynau i ddangos bod rhywun yn gallu siarad Cymraeg neu'n dysgu Cymraeg.

Yn ôl y grŵp nid oedd defnyddio cyfieithydd ar y pryd neu offer cyfieithu ar y pryd yn ddelfrydol os oedd unigolyn yn dymuno defnyddio'r Gymraeg mewn cyfarfod. Ond roedd hynny'n fwy priodol na chynnal cyfarfod yn Saesneg. Dywedwyd fod pobl efallai'n teimlo'n fwy cartrefol yn trafod yn Saesneg, ond yn gyffredinol byddai'n well ganddynt siarad yn eu hiaith gyntaf.

Mewn digwyddiadau cyhoeddus, roedd y grŵp o'r farn y byddent yn fwy tebygol o siarad Cymraeg pe bai'r digwyddiad wedi'i hysbysebu'n ddwyieithog. Roeddent hefyd yn fwy tebygol o fynd i ddigwyddiad a oedd wedi'i hysbysebu'n ddwyieithog.

Roedd y grŵp yn teimlo ei bod hi'n anodd cael gafael ar fersiynau Cymraeg o ffurflenni ac y dylai'r iaith a ddefnyddir ar ffurflenni fod yn glir ac yn syml.

'Angen sicrhau fod yr eirfa Cymraeg ar y ffurflenni yma yn hawdd i ddeall, gan mae'n gallu rhoi bobl bant,'

O ran cyrsiau, roedd yn naturiol yn ôl y grŵp bod y rheini a oedd wedi cael addysg Gymraeg eisiau cael cyrsiau yn Gymraeg hefyd. Trafodwyd gwersi nofio, a chytunodd y grŵp y byddai'n well ganddynt gael y gwersi yn Gymraeg.

Roedd y grŵp o'r farn y dylid paratoi Safonau penodol ar gyfer y cyfryngau cymdeithasol.

# Adborth o'r ymgynghoriad

## Cwestiwn 1 – Safonau cyflenwi gwasanaethau

**Ydych yn cytuno â'r safonau cyflenwi gwasanaethau arfaethedig (a gynhwysir yn y rheoliadau drafft) yn Atodlen 1 y ddogfen rheoliadau?**

Atebodd 30 o ymatebwyr y cwestiwn Cytuno / Anghytuno / Ddim yn cytuno nac yn anghytuno. Roedd 15 ymatebydd (50%) yn cytuno, 7 ymatebydd (23%) yn anghytuno, ac 8 ymatebydd (27%) ddim yn cytuno nac yn anghytuno â'r cwestiwn.

Roedd nifer o'r ymatebwyr, yn enwedig y sefydliadau hynny y mae'r gyfres gyntaf o Safonau'n berthnasol iddynt, yn teimlo bod y Safonau Cyflenwi Gwasanaethau'n adlewyrchu cynnwys eu Cynlluniau Iaith presennol ac y byddent yn gallu cydymffurfio â'r rhan fwyaf ohonynt.

'Mae'r Safon cyflenwi gwasanaethau yn debyg iawn i ofynion y Cynllun Iaith Gymraeg, ac felly mae Cyngor Sir Ceredigion ar y cyfan yn gyfforddus gyda'r gofynion.'

Cyngor Sir Ceredigion

Roedd ymatebion eraill yn fwy negyddol ac yn canolbwyntio ar ganran y siaradwyr Cymraeg yn yr ardal, nifer y siaradwyr Cymraeg a gyflogir gan y sefydliad, y galw isel am wasanaethau Cymraeg a'r posibilrwydd o gostau a biwrocratiaeth ychwanegol.

'Ymddengys fod yna gred na fyddai cyflwyno'r safonau yn achosi rhagor o gost oherwydd bod gyda ni, fel cyrff eraill yng Nghymru, Gynllun Iaith. Er hynny, mewn gwirionedd bydd y safonau yn rhoi pwysau gormodol ar wasanaethau ac yn gwasgu lefelau staffio a chyllidebau mwy fyth. Ymddengys fod yna lefel gwbl newydd o fiwrocratiaeth ynghlwm wrth y safonau hyn y bydd angen ei hariannu ar draul darparu gwasanaethau – p'un a yw'r rheini yn Saesneg neu yn y Gymraeg.'

Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot

Roedd y Safonau canlynol yn peri pryder i'r ymatebwyr:

Cododd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr bryderon ynghylch y cofnodion a'r dechnoleg yr oedd eu hangen i fodloni **Safonau drafft 2 a 21**. Teimlwyd y gallai'r dasg hon fod yn llafurus yn ddiangen ac y byddai angen system ganolog ar sefydliadau mwy o faint. Awgrymodd rhai sefydliadau y gallai'r gwaith gael ei wneud yn well o fewn adrannau yn hytrach nag ar lefel y sefydliad cyfan. Dywedodd nifer o ymatebwyr (sefydliadau ac unigolion) efallai bod pobl eisiau derbyn galwadau/gohebiaeth am rai materion yn Gymraeg a materion eraill yn Saesneg.



O ran Safon ddrafft 21, roedd Cymdeithas yr Iaith a Dyfodol i'r iaith, ymhlith eraill, yn teimlo y gallai gofyn i rywun a ydynt am siarad Cymraeg pan oedd y sgwrs wedi dechrau yn Saesneg roi pwysau ar y person hwnnw i newid iaith, ac mae'n rhoi'r argraff o wasanaeth 'optio i mewn'.

**Safon ddrafft 26** - tynnodd Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru a sawl un arall sylw at yr amrywiaeth o ran terminoleg ar gyfer cyfieithu a chyfieithu ar y pryd drwy gydol y Rheoliadau a gofynnwyd a fyddai modd ei safoni. Caiff eu sylwadau eu hystyried yn fanylach o dan gwestiwn 9. Nododd sawl ymatebydd nad oedd yn arfer nac yn bolisi yn eu sefydliad ar hyn o bryd i ddarparu cyfieithu ar y pryd o'r Saesneg i'r Gymraeg, ac roedd pryder am y costau sy'n gysylltiedig â chyfieithu ar y pryd.

'Yn gyffredinol, mae'r safonau yn ymwneud â chyfarfodydd yn rhagdybio y gellir galw ar wasanaeth cyfieithu ar unrhyw adeg heb ystyried oblygiadau ariannol hyn.'

Anhysbys

Roedd Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru'n teimlo y byddai cyfieithu olynol yn gam nol ar ôl blynyddoedd o arfer da o ran cyfieithu ar y pryd.

Roedd **Safon ddrafft 41** yn peri pryder i bron pob un o'r ymatebwyr, hyd yn oed y rheini sydd eisoes yn cynhyrchu rhai papurau'n ddwyieithog. Diffyg galw, yr amser y byddai'r gwaith cyfieithu'n ei gymryd a chost oedd y prif resymau a roddwyd i egluro pam fod y Safon hon yn afresymol.

'Nid ydym o'r farn y byddai'n ymarferol cyfieithu pob dogfen ac adroddiad sy'n mynd i gyfarfodydd Cabinet y Cyngor..... Nid ydym yn teimlo felly y byddai hyn yn ddefnydd doeth o adnoddau cyfieithu'r Cyngor.'

Cyngor Sir Powys

Roedd y ddau ymatebydd yn teimlo bod angen i'r diffiniad o ap yn **Safon ddrafft 57** fod yn gliriach ac yn ehangach. Nodwyd hefyd bod nifer o Safonau'n ymwneud â gwefannau, ond dim ond un yn ymwneud ag apiau. Teimlwyd bod hyn yn dangos diffyg gweledigaeth o ystyried pa mor bwysig y mae apiau'n debygol o fod ar gyfer darparu gwasanaethau a masnachu ar-lein yn y dyfodol.

Codwyd pryderon am **Safon ddrafft 59** ynghylch safle testun Cymraeg ar arwyddion newydd. Roedd rhai'n teimlo bod y Safon hon yn anghymesur ac yn anwybyddu demograffeg ardaloedd penodol. Roedd rhai'n teimlo y gallai gynyddu pryderon ynghylch diogelwch beicwyr modur a cherbydau eraill ac y dylai fod yn fater i'r sefydliad benderfynu pa iaith sy'n dod gyntaf.

'Gan mai Saesneg yw'r brif iaith a ddefnyddir, ac am ein bod yn sir ar y ffin â Lloegr gyda llawer o weithwyr yn cymudo i mewn bob dydd, does dim

cyfiawnhad dros flaenoriaethu un iaith dros y llall.'

Cyngor Sir y Fflint

Roedd sawl ymatebydd yn teimlo bod **Safonau drafft 62A, 63 a 64** yn llai na darpariaeth bresennol rhai sefydliadau drwy eu Cynlluniau Iaith.

'Rwyf yn siomedig iawn gyda'r safonau. Maent yn ymddangos yn wannach na sawl cynllun iaith gyfredol, ac mae hyn cam yn ôl, yn arbennig mewn ardaloedd lle mae'r Gymraeg dal yn gryf fel iaith gymunedol bob dydd ac mae gan cyrff cyhoeddus cyfrifoldebau a dyletswyddau foesol ac ymarferol arbennig i hybu'r iaith yn llefydd felly; cydnabyddir hyn yn eang.'

Unigolyn anhysbys

Teimlwyd hefyd bod angen i'r diffiniad o 'dderbynfa' fod yn gliriach.

Roedd Cymdeithas yr Iaith ac eraill yn teimlo'n gryf bod angen ychwanegu Safon arall i'r adran ar Grantiau (**Safonau drafft 69-73**) er mwyn ei gwneud yn ofynnol i sefydliadau osod amodau ieithyddol ar unrhyw unigolyn neu sefydliad sy'n cael grant.

Roedd nifer o ymatebwyr o'r farn y byddai **Safon ddrafft 74** yn peri problem oherwydd systemau caffael a rheoliadau caffael yr Undeb Ewropeaidd.

'Byddai'r amserlen a roddir i'r awdurdod i gytuno contractau, yn arbennig contractau dan reoliadau'r Undeb Ewropeaidd, yn gwneud cynhyrchu dogfennaeth gefndir Gymraeg – sy'n aml yn dechnegol neu o fawr ddim diddordeb i aelodau'r cyhoedd – yn anghymesur. Gallai hyn arwain at oedi ac, yn y pen draw, at fethu terfynau amser, gyda'r potensial i'r awdurdod golli arian.'

Dinas a Sir Abertawe

'Nodwn nad yw system gaffael 'Sell2Wales' yn llwyr ddwyieithog ac felly mae sicrhau yr un triniaeth o'r ddwy iaith drwy ddefnyddio'r system hon yn amhosib ar hyn o bryd.'

S4C

Mae ymateb Cymdeithas yr Iaith a nifer o ymatebion unigol hefyd yn awgrymu y dylid ychwanegu dyletswydd i'r Rheoliadau sy'n ei gwneud yn ofynnol i sefydliadau osod amodau ieithyddol ar gontractwyr.

Codwyd nifer o bryderon ynghylch **Safonau drafft 82-84**. Roedd rhai ymatebwyr yn teimlo y dylid cymhwysu'r Safonau i bob cwrs, nid dim ond 'cyrсияu addysgol' fel y nodwyd yn y Rheoliadau. Fodd bynnag, roedd sawl ymatebydd yn pryderu ynghylch cael/recriwtio staff addas i ddarparu'r cyrsiau hyn a hefyd ynghylch y cynnydd posibl yn y costau lle byddai angen i gwrs gael ei gynnal yn Gymraeg a Saesneg a'r galw

am gyrsiau Cymraeg. Croesawodd nifer o ymatebwyr effaith y Safonau hyn ar y gwasanaethau a ddarperir i blant a phobl ifanc, fel y gwersi nofio a ddarperir gan awdurdodau lleol.

Codwyd cwestiynau ynghylch cyhoeddiadau (**Safon ddrafft 85**) a'r hyn y dylai ddigwydd mewn argyfwng. Roedd nifer o ymatebwyr yn teimlo y gallai hyn beryglu bywydau ac roeddent yn cwestiynu beth fyddai'n digwydd pe na fyddai siaradwr Cymraeg ar gael i wneud cyhoeddiad mewn argyfwng.

## **Cwestiwn 2 – Safonau llunio polisi**

### **Ydych chi'n cytuno â'r safonau llunio polisi arfaethedig yn Atodlen 2 y ddogfen reoliadau?**

Atebodd 30 o ymatebwyr y cwestiwn Cytuno / Anghytuno / Ddim yn cytuno nac yn anghytuno. Roedd 25 o ymatebwyr (83%) yn cytuno, 1 ymatebydd (3%) yn anghytuno, a 4 ymatebydd (13%) ddim yn cytuno nac yn anghytuno â'r cwestiwn.

Cafodd y Safonau llunio polisi groeso cyffredinol gan yr ymatebwyr. I lawer, roedd y camau gweithredu arfaethedig yn y Safonau yn arferion a oedd yn bodoli eisoes. I eraill, byddant yn cryfhau eu prosesau mewnol.

'Croesewir safonau llunio polisi ac mae'n gam cadarnhaol tuag at ffurfioli proses o lunio polisi sy'n digwydd ar hyn o bryd ar sail ad-hoc. Mae gwahaniaeth sylweddol rhwng y safon yma a'r cynlluniau iaith gan fod y cwmni'n dod yn fwy atebol am y penderfyniad llunio polisi.'

Coleg Sir Gâr

Soniodd un sefydliad am yr anawsterau a allai godi pan fyddai gweithlu a oedd yn Saesneg ei iaith gan mwyaf yn asesu effaith polisi ar yr iaith Gymraeg. Nododd nifer o ymatebwyr y byddai methodoleg yn ddefnyddiol i helpu swyddogion fynd ati i gynnal asesiadau effaith.

'Croesawem pe gallai Swyddfa'r Comisiynydd ddarparu neu ddatblygu methodoleg y gallai ein swyddogion ei defnyddio i'w galluogi i wneud cyfiawnder â'r dasg bwysig o asesu effaith penderfyniadau polisi ar y Gymraeg.'

Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

Y brif feirniadaeth o'r Safonau llunio polisi oedd eu bod yn rhy gymhleth ac yn ailadroddus. Awgrymodd rhai ymatebwyr y dylid uno rhai o'r Safonau hyn a rhoddwyd enghreifftiau o sut y gellid eu symleiddio.

## Cwestiwn 3 – Safonau gweithredu

### Ydych chi'n cytuno â'r safonau gweithredu arfaethedig yn Atodlen 3 y ddogfen reoliadau?

Atebodd 30 o ymatebwyr y cwestiwn Cytuno / Anghytuno / Ddim yn cytuno nac yn anghytuno. Roedd 18 ymatebydd (60%) yn cytuno, 4 ymatebydd (13%) yn anghytuno, ac 8 ymatebydd (27%) ddim yn cytuno nac yn anghytuno â'r cwestiwn.

Roedd nifer fawr o ymatebwyr yn teimlo bod y gallu i gydymffurfio â'r Safonau hyn yn dibynnu a oedd gan sefydliad ddigon o staff sy'n gallu siarad Cymraeg. Mae'r cyfyngiadau ar recriwtio allanol ar hyn o bryd yn sgil y rhwystrau ariannol y mae'r rhan fwyaf o sefydliadau yn y sector cyhoeddus yn eu hwynebu yn golygu y byddai nifer o sefydliadau'n dibynnu ar gyfieithu a chyfieithu ar y pryd i gydymffurfio â'r safonau.

'Gofynnwn i chi ystyried yr adnoddau (o ran cyfieithu a nifer y staff sy'n medru cyfathrebu'n Gymraeg) a gallu mewnol cyrff wrth ddyrannu'r safonau fel y bo'n briodol.'

Coleg Sir Gâr

Roedd rhai ymatebwyr o'r farn nad oedd cynhyrchu fersiynau Cymraeg o bolisiau cyflogaeth at ddibenion mewnol yn unig (**Safonau drafft 103-109**) yn ddefnydd da o adnoddau.

**Safonau drafft 110-117** - dywedodd nifer o ymatebwyr na fyddai'n bosibl bodloni'r safonau hyn oni bai bod rheolwr llinell y gweithiwr yn gallu siarad Cymraeg.

Soniodd sawl ymatebydd am gost meddalwedd Cymraeg fel Cysgliad (**Safon ddrafft 118**) a'i bod yn anodd ei gyfiawnhau pan nad oedd llawer yn ei ddefnyddio. Awgrymwyd y gallai trefniant trwyddedu corfforaethol fod yn ddefnyddiol.

Roedd sawl ymatebydd yn teimlo y byddai creu mewnrwyd cwbl ddwyieithog (**Safon ddrafft 119**) yn llafurus iawn ac nad oedd yn ddefnydd da o adnoddau, yn enwedig pan oedd y sefydliad dan sylw ond yn cyflogi nifer fach o siaradwyr Cymraeg.

'Byddai creu a chynnal mewnrwyd cwbl ddwyieithog yn dasg anferth (a pharhaus) gydag effaith anghymesur o fach ar aelodau staff - er (#123) y gallai paratoi tudalennau dwyieithog i helpu staff i weithio trwy gyfrwng y Gymraeg fod o werth.'

Dinas a Sir Abertawe

Dywedodd ymatebydd arall bod y Safonau ar gyfer tudalennau mewnrwyd yn llymach na'r Safonau ar gyfer gwefannau allanol, a bod angen cysondeb yn hyn o beth.

**Safon ddrafft 126** - dywedodd rhai ymatebwyr bod yr hyfforddiant yn cael ei gynnal fel arfer yn iaith y mwyafrif o'r cyfranogwyr, ac roeddent yn teimlo bod hyn yn rhesymol ac yn gymesur. Soniodd eraill am ddiffyg hyfforddwyr â sgiliau Cymraeg addas, y gost o gaffael gwasanaethau hyfforddi a chost deunyddiau hyfforddi.

**Safon ddrafft 134** - Roedd nifer o ymatebwyr yn credu bod angen cryfhau'r Safon hon er mwyn dynodi swyddi fel rhai lle'r oedd sgiliau Cymraeg yn hanfodol neu'n ddymunol.

'Credwn fod angen cryfhau'r safon hwn trwy gadw'r canllaw presennol o ddatgan bod y Gymraeg yn hanfodol neu bod y Gymraeg yn ddymunol ar gyfer swyddi. Dylid gwella'r safon trwy wneud hyn yn eglur wrth hysbysebu swyddi.'

Plaid Cymru

## **Cwestiwn 4 – Safonau hybu**

**Ydych chi'n cytuno â'r safonau hybu arfaethedig yn Atodlen 4 y ddogfen reoliadau?**

Atebodd 30 o ymatebwyr y cwestiwn Cytuno / Anghytuno / Ddim yn cytuno nac yn anghytuno. Roedd 21 ymatebydd (70%) yn cytuno, 4 ymatebydd (13%) yn anghytuno, ac 5 ymatebydd (17%) ddim yn cytuno nac yn anghytuno â'r cwestiwn.

Roedd yr ymatebion i'r cwestiwn hwn yn amrywio'n fawr. Roedd rhai ymatebwyr yn teimlo bod y Safonau hyn yn uchelgeisiol o ystyried yr hinsawdd ariannol bresennol a llwyth gwaith y sefydliadau.

'Mae'r Safon yn un uchelgeisiol gan ystyried yr hinsawdd ariannol a goblygiadau hynny ar gapasiti y sefydliad i fedru hyrwyddo a hwyluso defnydd o'r Gymraeg yn ehangach o fewn yr ardal.'

Cyngor Sir Ceredigion

Roedd eraill o'r farn mai prin oedd y cyfleoedd iddynt ddylanwadu ar y defnydd o'r iaith yn eu hardal, ac nad oedd y diffiniad o ardal yn ddigon clir.

'...prin iawn yw'r cyfleoedd i ni gael unrhyw ddylanwad uniongyrchol ar nifer y siaradwyr Cymraeg yn y Parc, er fe fydd nifer o gyfleoedd i ni (trwy gyfrwng ein gwaith) i hybu'r iaith Gymraeg a'r defnydd a wneir ohoni yn lleol.'

Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri

'Nid oes diffiniad o 'eich ardal' ar hyn o bryd, ac mae'r term yn eithaf penagored all ei ddehongli mewn sawl ffordd. Beth am ddefnyddio term mwy penodol fel 'eich ardal gweithredol' neu 'ardal eich awdurdod.'

## Mentrau Iaith Cymru

Roedd eraill yn cwestiynu ai rôl ei sefydliad nhw oedd hybu'r defnydd o'r iaith Gymraeg.

'Er ein bod yn teimlo ei bod yn rhesymol gofyn inni lunio strategaeth, nid yw'n rhesymol gofyn inni gynnwys targed ar gyfer cynyddu neu gynnal y nifer o siaradwyr Cymraeg yn yr ardal.'

## Anhysbys

Soniodd nifer o ymatebwyr am y gwaith partneriaeth y byddai ei angen i sicrhau bod unrhyw strategaeth yn effeithiol, ac efallai y byddai'n well canolbwyntio ar ymgyrchoedd lleol a chenedlaethol ar y cyd.

'Mae ymgyrchoedd lleol a chenedlaethol yn gallu bod yn fwy effeithiol na chynnal digwyddiadau a gweithgareddau ac mae defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol yn gallu cyfrannu at hynny.'

## Cyngor Sir Caerfyrddin

'.....nad oes modd i gyrff unigol fynd ati i gyflawni hyn heb fod ganddynt adran cynllunio ieithyddol eu hunain, ac mae'n annhebygol iawn y bydd ganddynt yn awr, nac yn y dyfodol, adran o'r fath. Mae'r angen yma am awdurdod iaith cenedlaethol yn amlwg, ac er pob cefnogaeth y dymunem ei rhoi i'r safonau, mae cyd-destun gweithredu'r safonau'n rhwym o fod yn annigonol heb fod corff o'r fath yn rhoi arweiniad wedi'i seilio ar arferion gorau cynllunio ieithyddol.'

## Dyfodol i'r Iaith

Roedd y posibilrwydd o uno awdurdodau lleol hefyd yn peri pryder, ac roedd nifer yn teimlo na fyddai'n ddoeth i'r awdurdodau lleol baratoi strategaethau 5 mlynedd pan oeddent yn bron yn sicr o gael eu huno yn ystod y cyfnod hwnnw.

'Er ein bod yn cytuno â'r egwyddor sylfaenol wrth wraidd y safonau hyn, byddem yn anghytuno â'r gofyn i gydymffurfio â'r safonau hyn o fewn yr amserlen a nodir pe na rhoddir yn gyntaf ystyriaeth i effaith uno Awdurdodau Lleol â'i gilydd ar y safonau hyn a chymryd camau priodol yn sgil hynny.'

## Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

Y prif bryder arall a godwyd mewn perthynas â **Safon ddrafft 144**, oedd bod sefydliadau'n dibynnu'n fawr ar y Cyfrifiad am ddata ynghylch y Gymraeg ac felly ei bod yn anodd casglu data am fod y Cyfrifiad ond yn cael ei gynnal unwaith bob deng mlynedd. Roedd nifer o ymatebwyr yn cwestiynu a fyddai Llywodraeth Cymru neu Gomisiynydd y Gymraeg yn comisiynu ymchwil ychwanegol rhwng y Cyfrifiadau.

## Cwestiwn 5 – Safonau cadw cofnodion

### Ydych chi'n cytuno â'r safonau cadw cofnodion arfaethedig yn Atodlen 5 y ddogfen reoliadau?

Atebodd 29 o ymatebwyr y cwestiwn Cytuno / Anghytuno / Ddim yn cytuno nac yn anghytuno. Roedd 19 ymatebydd (66%) yn cytuno, 3 ymatebydd (10%) yn anghytuno, ac 7 ymatebydd (24%) ddim yn cytuno nac yn anghytuno â'r cwestiwn.

Roedd nifer fawr o ymatebwyr yn teimlo bod y Safonau cadw cofnodion yn feichus ac yn rhy fiwrocraidd a byddant yn cynyddu'r llwyth gwaith yn sylweddol.

'Mae nifer fawr o staff mewn cyswllt dyddiol gydag aelodau o'r cyhoedd a byddai rheoli a chadw cofnod o'r holl gyswllt yn dasg enfawr.'

Cyngor Sir Caerfyrddin

Dywedodd nifer o ymatebwyr y byddai angen system neu gronfa ddata i gadw cofnodion er mwyn cydymffurfio â'r Safonau hyn.

Roedd rhai o'r farn bod **Safonau 150, 152, 153 a 154** yn benodol yn afresymol ac yn anghymesur.

'Ni allaf ddychmygu bod unrhyw awdurdod cyhoeddus yn mynd i allu cydymffurfio gyda safonau 150, 152, 153 a 154 yn llawn. Nid yw'r safonau hyn yn rhesymol nac yn gymesur. Byddai'r adnoddau angenrheidiol ar gyfer cadw'r fath gofnodion wirioneddol yn sylweddol, a hynny yn ystod cyfnod o doriadau ariannol llym. Bydd gorfod cadw cofnodion o'r fath yn creu byrdwn biwrocratig diangen ar unrhyw Awdurdod.'

Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri

Holodd un ymatebydd sut y byddai'r Comisiynydd yn gwybod a yw'r cofnodion a gedwir yn gywir, a pha effaith y byddai hyn yn ei chael.

'Rhaid ystyried sut bydd y Comisiynydd yn gwybod os na chedwir y cofnodion yn gywir. Gall methiant i gydymffurfio at atodlen 5 danseilio holl amcanion y Mesur, drwy i'r sefydliad ymddangos nad yw wedi derbyn llawer o gwynion oherwydd y broses gyfrif.'

Canolfan Materion Cyfreithiol Cymraeg

## Cwestiwn 6 – Safonau atodol

### Ydych chi'n cytuno â'r safonau atodol arfaethedig (a gynhwysir yn y rheoliadau drafft) yn Atodlen 6 y ddogfen reoliadau?

Atebodd 28 o ymatebwyr y cwestiwn Cytuno / Anghytuno / Ddim yn cytuno nac yn anghytuno. Roedd 20 ymatebydd (71%) yn cytuno, 3 ymatebydd (11%) yn anghytuno, ac 5 ymatebydd (18%) ddim yn cytuno nac yn anghytuno â'r cwestiwn.

Ychydig iawn o ymatebwyr a gyflwynodd ymatebion manwl i'r argymhelliad hwn. Roedd sylwadau'r mwyafrif o'r rheini a wnaeth ymateb yn gadarnhaol. Er enghraifft:

'Mae'r Safonau atodol yn ymddangos fel eu bod yn addas ar gyfer paratoi fframwaith er mwyn sicrhau bod ein rhwymedigaethau'n cael eu cofnodi a'u cyhoeddi'n briodol; ac i roi golwg agored a thryloyw o'r prosesau sydd ar gael i aelodau'r cyhoedd.'

Dinas a Sir Abertawe

Roedd rhai pryderon ynghylch ailadrodd Safonau cynharach, a chafwyd awgrymiadau gan rai ymatebwyr ar sut y gellid uno Safonau.

Awgrymodd nifer y byddai templedi'n ddefnyddiol i'w helpu i gadw cofnodion.

'Rydym yn cynnig bod Llywodraeth Cymru a / neu Gomisiynydd y Gymraeg yn paratoi llyfrgell o dempledi / canllawiau / arfer gorau i helpu cyrff i gydymffurfio wrth gwblhau'r amrywiol adroddiadau, ac i gynorthwyo i ddarparu'r data cywir at ddibenion cysondeb, e.e.

- Templed Adroddiad Blynyddol
- Dogfennaeth safon cadw cofnodion

Colegau Cymru

Dywedodd dau ymatebydd fod angen eglurder yn y broses gwyno.

'Hoffwn dderbyn cadarnhad nad oes gofyn i gorff sefydlu gweithdrefn gwyno ar wahân ar gyfer y safonau ac y byddai modd addasu gweithdrefn gwyno sydd eisoes mewn lle i ddelio â chwynion sy'n ymwneud â'r safonau.'

S4C



## Cwestiwn 7

### **A yw'r ffaith bod y safonau arfaethedig (a gynhwysir yn y rheoliadau drafft) ar sail statudol yn golygu y byddant yn annog rhagor o bobl i ddefnyddio gwasanaethau Cymraeg?**

Atebodd 28 o ymatebwyr y cwestiwn Cytuno / Anghytuno / Ddim yn cytuno nac yn anghytuno. Roedd 10 ymatebydd (36%) yn cytuno, 3 ymatebydd (11%) yn anghytuno, ac 15 ymatebydd (54%) ddim yn cytuno nac yn anghytuno â'r cwestiwn.

Yn gyffredinol, roedd yr ymatebwyr o'r farn y byddai pobl yn fwy tebygol o siarad Cymraeg a defnyddio gwasanaethau Cymraeg os oeddent yn gwybod beth yw eu hawliau mewn perthynas â'r Gymraeg a pha wasanaethau oedd ar gael iddynt yn Gymraeg.

'Teimlwn y bydd dyfodiad y safonau yn digwyddiad cadarnhaol iawn o ran hybu a hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg, i'r sawl sy'n darparu ac yn derbyn y gwasanaeth. Bydd yn amlinellu'n glir sut y bydd y gall sefydliadau ac unigolion ddisgwyl darparu a derbyn y gwasanaethau hynny, ac yn rhoi hyder i bobl fynd ati i ddefnyddio'u Cymraeg.'

Cyngor Sir Powys

Pwysleisiodd rhai ymatebwyr ei bod yn hanfodol sicrhau bod gwasanaethau Cymraeg yn ddibynadwy, a bod pobl ond yn debygol o ddefnyddio gwasanaeth eto a'i argymhell i eraill os oedd y gwasanaeth o safon dda. Roedd rhai o'r farn y byddai'r galw am wasanaethau yn cynyddu yn yr hirdymor wrth i fwy a mwy o bobl ddod i wybod beth sydd ar gael.

'Mae'n debygol y bydd mwy o bobl yn gwybod bod ganddynt yr hawl i siarad Cymraeg ond os fydd y gwasanaeth trwy gyfrwng y Gymraeg yn eilradd a bod rhaid aros amdano, ni fydd yn annog pobl i'w ddefnyddio.'

Cyngor Sir Caerfyrddin

'Bydd y safonau yn diffinio ac yn manylu'n well beth i'w ddisgwyl gan gorff rheoledig ac felly yn annog defnyddwyr gwasanaethau i ofyn am y gwasanaethau hynny a herio unrhyw ddiffyg mewn darpariaeth. Dylai'r gwasanaethau a ddarperir yn Gymraeg fod yn fwy gweladwy, a bydd hyrwyddo gwell dros amser yn arwain at ddisgwyliad uwch bod gwasanaethau Cymraeg ar gael a bod mwy o bobl yn defnyddio'r gwasanaethau hynny.'

Dinas a Sir Abertawe

Fodd bynnag, roedd rhai ymatebwyr yn teimlo na fyddai'r Safonau'n ddigon ar eu pennau eu hunain i gynyddu nifer y bobl sy'n defnyddio gwasanaethau Cymraeg.

'Mae nifer o resymau cymhleth dros fod siaradwyr Cymraeg yn amharod i ddefnyddio'r Gymraeg mewn amrywiol sefyllfaoedd. Mae'n rhaid wrth

gynllunio ieithyddol bwriadus i newid hynny, a dim ond un dull ymhlith amryw o ymyraethau gwahanol y mae angen eu rhoi ar waith er mwyn sicrhau y gwneir rhagor o ddefnydd o'r Gymraeg yw cymhwyso safonau statudol i awdurdodau lleol. Ynddynt eu hunain, ofnwn na fydd y Safonau Cyflenwi Gwasanaeth yn arwain at lawer o newid yn y defnydd a wneir o wasanaethau Cymraeg.'

#### Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

'Nid oes modd gwrthdroi ymddygiad ieithyddol pobl yn sydyn trwy ddeddf, er y gall deddf roi sail i wneud hynny. Mae angen ymgyrch hyrwyddo sylweddol a pharhaus, ehangu'r defnydd o'r Gymraeg yn iaith gwaith nes ei bod cael ei gweld yn dderbyniol ac yn arferol, ac mae angen rhaglen gydlynus o bolisiâu sy'n anelu at hyrwyddo'r iaith mewn gwahanol beuoedd.'

#### Dyfodol i'r iaith

Soniodd rai ymatebwyr am bŵer y Comisiynydd i orfodi'r Safonau a'r gwahaniaeth mawr rhwng y Cynlluniau Iaith a'r Safonau yn hyn o beth. Serch hynny, cododd nifer o sefydliadau bryderon na fyddent yn gallu bodloni rhai o'r Safonau oherwydd diffyg siaradwyr Cymraeg yn eu gweithlu a chyfyngiadau ar recriwtio oherwydd rhwystrau ariannol. Roeddent hefyd yn pryderu y gallai'r posibilrwydd o ymchwiliad gan y Comisiynydd arwain at ddileu'r gwasanaethau hyn (Cymraeg a Saesneg) yn gyfan gwbl.

Yn olaf, awgrymodd nifer o ymatebwyr na fyddai cynnydd mawr yn y defnydd a wneir o'r gwasanaethau gan nad oes fawr o alw am wasanaethau Cymraeg ar hyn o bryd.

## Cwestiwn 8

**A yw'r safonau arfaethedig (a gynhwysir yn y rheoliadau drafft) yn eglur ynghylch pa lefel o wasanaeth i'w disgwyl os caiff y safon ei gosod ar sefydliad?**

Atebodd 28 o ymatebwyr y cwestiwn Cytuno / Anghytuno / Ddim yn cytuno nac yn anghytuno. Roedd 16 ymatebydd (57%) yn cytuno, 6 ymatebydd (21%) yn anghytuno, ac 6 ymatebydd (21%) ddim yn cytuno nac yn anghytuno â'r cwestiwn.

Y prif sylw a gafwyd gan yr ymatebwyr ar y cwestiwn hwn oedd bod y Safonau eu hunain yn ddigon clir ond y Comisiynydd fydd yn penderfynu pa ddyletswyddau i'w rhoi ar sefydliadau unigol mewn perthynas â'r Gymraeg, a'i bod yn debygol felly y byddai amrywiaethau rhwng sefydliadau yn yr un sector neu ardal ddaearyddol a allai arwain at ddryswch.

'Credwn mai un o fwriadau gwreiddiol y safonau oedd sicrhau y gellid disgwyl gwasanaeth tebyg o Fôn i Fynwy, ond mae'n bryder i ni, fod y drws yn agored i hynny beidio â bod yn wir.'

Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

'Medrir gosod Safonau gwahanol ar gyrff tebyg drwy Gymru neu ar ardaloedd daearyddol gwahanol o fewn yr un awdurdod hyd yn oed. Gall hyn greu dryswch wrth geisio deall y sefyllfa yn eich ardal chwi wrth wrando ar drafodaethau ar y Safonau ar radio a theledu yn genedlaethol.'

Huw Roberts

Bydd angen amser ar bobl i ymgyfarwyddo â'r Safonau y gallant ddisgwyl i sefydliad gydymffurfio â nhw a'r lefel o wasanaeth y gallant ddisgwyl ei chael. Mae aelodau Cymdeithas yr Iaith wedi pwysleisio ei bod yn bwysig sicrhau bod pobl yn gwybod beth yw eu hawliau mewn perthynas â'r Gymraeg.

'Mae angen i'r Safonau roi eglurder i'r cyhoedd ynghylch yr hawliau sy'n deilio o'r Safonau.'

136 o unigolion

Dywedodd nifer o ymatebwyr fod y Safonau'n tybio bod pob aelod o'r cyhoedd eisiau'r un peth a bod modd diwallu eu holl anghenion, ond efallai nad yw hyn yn wir.

'...Maen nhw'n tueddu i dybio bod defnyddwyr gwasanaethau yn grŵp homogenaidd sydd oll ag anghenion y gellir eu bodloni gan un haen o wasanaeth.'

Dinas a Sir Abertawe

Soniodd nifer o ymatebwyr eto am eu hawgrymiadau ar gyfer y Safonau hynny a oedd yn aneglur neu'n ailadroddus neu y gellid eu huno â Safonau eraill. Roedd eraill o'r farn y gellid gwella fformat a strwythur y Rheoliadau. Roedd beirniadaeth hefyd o'r iaith a ddefnyddir yn y Mesur a'r Rheoliadau, ac un ymatebydd yn ei ddisgrifio'n Saesneg fel 'cosbol ac yn galed'.

## **Cwestiwn 9**

**Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych unrhyw faterion cysylltiedig nad ydym wedi mynd i'r afael â nhw, defnyddiwch y blwch hwn i'w cofnodi.**

Dywedodd nifer o ymatebwyr o sefydliadau y bydd y Safonau'n berthnasol iddynt ei bod yn anodd ymateb i'r ymgynghoriad hwn heb wybod pa Safonau a fyddai'n cael eu gorfodi arnynt yn y pen draw gan Gomisiynydd y Gymraeg. Ychwanegodd y

mwyafrif eu bod yn gobeithio y byddai'r Safonau a orfodir arnynt yn rhesymol ac yn gymesur. Soniodd rai am y gwaith yr oeddent yn ei wneud gyda phartneriaid a allai fod yn destun Safonau maes o law, a gofynnwyd am ganllawiau/eglurhad ynghylch eu cyfrifoldebau wrth weithio gyda'r partneriaid hyn.

Roedd cyfieithu a chyfieithu ar y pryd yn broblem i nifer o ymatebwyr mewn sawl ffordd. Roedd rhai o'r farn y byddai cydymffurfio â'r Safonau yn golygu dibynnu fwyfwy ar wasanaethau cyfieithu a chyfieithu ar y pryd. Roeddent yn pryderu y byddai hyn yn rhoi mwy o bwysau ar gyfieithwyr a chyfieithwyr ar y pryd sydd eisoes yn gweithio yn y sector cyhoeddus a'r rheini sy'n gweithio fel contractwyr.

Nododd Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru fod nifer o dermau gwahanol wedi'u defnyddio yn y Rheoliadau i gyfeirio at wasanaethau cyfieithu a chyfieithu ar y pryd, ac awgrymu mai'r termau 'cyfieithu' a 'cyfieithu ar y pryd' yn unig y dylid eu defnyddio.

Dyweddodd y Gymdeithas hefyd nad oedd y Safonau'n cyfeirio at y cyfryngau cymdeithasol, llwyfannau ar-lein a pheiriannau hunanwasanaeth, ac awgrymu bod Safonau newydd yn cael eu drafftio i lenwi'r bylchau hyn.

'Nid oes sicrwydd bod y safonau'n mynd i gadw lan gyda datblygiadau technolegol yn y dyfodol ac mae angen mynd i'r afael â hyn drwy safon sy'n cwmpasu datblygiadau newydd.'

Cymdeithas yr Iaith Gymraeg

Yn ychwanegol i'r sylwadau cynharach ynghylch gofyn i bobl am eu dewis iaith a chadw cofnod o hyn, roedd rhai ymatebwyr yn teimlo y gallai hyn beri problem yn enwedig mewn ardaloedd lle'r oedd nifer fawr o bobl yn siarad Gymraeg.

'Mae nifer o'r safonau hyn yn anwybyddu normau byw a gweithio mewn cymuned ddwyieithog lle bo'r Gymraeg yn gryf. Mewn gweithleoedd naturiol Cymraeg, maent yn creu biwrocratiaeth ddiangen sydd, weithiau yn esgor ar sefyllfaoedd annaturiol iawn. Mae'r safonau yn llawer mwy addas ar gyfer sefyllfaoedd lle nad yw'r Gymraeg yn cael ei defnyddio'n naturiol ac nad yw ar gael oni gofynnir am y gwasanaeth hwnnw.'

Grŵp Llandrillo Menai

'Dylai defnyddio'r Gymraeg teimlo'n normal, cyn belled â phosib. Dyw pobl ddim eisiau cael eu gofyn i wneud penderfyniadau am eu dewis iaith bob tro. Mae 'na risg o labelu pobl fel siaradwyr Cymraeg yn hytrach 'na jyst pobl.'

Monitor Iaith

## **Casgliad**

Mae Llywodraeth Cymru'n ddiolchgar iawn i bawb sydd wedi rhoi o'u hamser i ymateb i'r ymgynghoriad hwn. Bydd Prif Weinidog Cymru wedi ystyried y crynodeb o'r ymatebion fel rhan o'i ystyriaeth o Reoliadau Safonau'r Gymraeg. Bydd y Rheoliadau'n cael eu gosod gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru ym mis Mawrth 2015.

Bydd Comisiynydd y Gymraeg yn anfon Hysbysiadau Cydymffurfio maes o law at Weinidogion Cymru, Cynghorau Sir a Chynghorau Bwrdeistref Sirol, ac Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol.